




Ministry  
of Justice

# Review of legal aid for inquests

## Welsh Translation Summary



## Crynodeb gweithredol

1. Mae crwneriaid yn archwilio marwolaethau treisiol neu nad ydynt yn rhai naturiol, marwolaethau oherwydd achos anhysbys a marwolaethau mewn carchar neu gyfleusterau carcharu eraill y wladwriaeth. Cwest yw pan gynhelir gwrandawriad mewn llys cyhoeddus gan grwner (math penodol o farnwr) i sefydlu pwy oedd y sawl a fu farw, a sut, pryd ac yn lle y gwnaethant farw. Yn fwy na dim arall, mae'n broses ymchwiliol sy'n golygu mai swyddogaeth y crwner yw ymchwilio a phenderfynu beth yw'r ffeithiau.
2. Mewn ymateb i adroddiadau oedd yn galw am newidiadau i gael eu gwneud i'r argaeledd presennol am gymorth cyfreithiol i deuluoedd mewn profedigaeth, cytunodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder i adolygu'r darpariaethau presennol o gymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Gofynnodd yr adran am farn amrywiaeth eang o grwpiau o randdeiliaid. Casglwyd tystiolaeth ar ffurf arolygon gan grwneriaid uwch, trafodaethau grŵp ymgynghorol gyda'r proffesiwn cyfreithiol, sefydliadau yn y trydydd sector a theuluoedd mewn profedigaeth a thros yr haf, cynhaliwyd ymarfer galw am dystiolaeth chwe wythnos.
3. Roedd yr adolygiad yn ceisio deall yn well yr amgylchiadau lle mae angen ar deuluoedd gynrychiolaeth gyfreithiol arnyn nhw er sy'n broses gwest deg ac a oes angen gwneud newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol. Roedd hefyd yn ceisio nodi mesurau i wneud cwestau yn fwy sympathetig i deuluoedd mewn profedigaeth.
4. Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel adroddiad terfynol yr adolygiad. Mae'n archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r adolygiad, yn ystyried y prif bryderon a nodwyd gan yr ymatebwyr ac yn nodi meysydd posibl ar gyfer gwneud gwelliannau i'r broses gwest yn ei chyfanrwydd.
5. Mae'r opsiynau a amlinellir yn y ddogfen hon yn ceisio gwella'r system bresennol ac mae wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:
  - Dylai cwestau fod yn ymchwiliol;
  - Dylai crwneriaid gynnal cwestau mewn ffordd sy'n sympathetig i anghenion y rheini mewn profedigaeth, heb gyfaddawdu ar gyflawni cyfiawnder;
  - Dylai crwneriaid reoli'r ffordd y mae cyfreithwyr yn gweithredu mewn cwestau;
  - Dylai cyfreithwyr wybod beth sydd i'w ddisgwyl ohonyn nhw;
  - Dylai teuluoedd ddeall swyddogaethau'r crwner a gallu dilyn y gweithdrefnau;
  - Dylai teuluoedd fod o'r farn bod y broses yn un deg ac yn un sydd wedi cael ei chynnal yn briodol;
  - Dylai teuluoedd fod yn ymwybodol o'r cymorth cyfreithiol sydd ar gael ac, os yn gymwys, sut i ymgeisio amdano.

6. Mae'r adroddiad hwn yn cyhoeddi amrywiaeth o newidiadau i'r system bresennol gan ystyried yr egwyddorion hyn. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair rhan, fel a ganlyn:
  - A. Cyswllt cychwynnol a chyfathrebu gydag aelodau o'r teulu mewn profedigaeth;
  - B. Cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau;
  - C. Y Cwest ei hun.
7. O fewn y tair adran hyn, cyhoeddwyd nifer o newidiadau, pob un ohonynt wedi'u hanelu at wella'r broses cymorth cyfreithiol fel ag y mai hi a datblygu system sy'n cefnogi mwy ar deuluoedd mewn profedigaeth:

#### **A. Cyswllt cychwynnol a chyfathrebu gydag aelodau o'r teulu mewn profedigaeth.**

8. Daeth yn glir o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid ei bod hi'n bosibl bod y teulu mewn profedigaeth yn wynebu problemau wrth geisio cael at wybodaeth ynghylch y broses ymchwiliol ac mae sgôp yma i wella pa mor rhwydd yw hi i gael at yr wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael.
  - i. Yn ogystal â gwella canllaw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder – *Guide to Coroner Services*, rydym yn ystyried-ar y cyd â swyddfeydd y crwneriaid-ffyrdd eraill o ddsbarthu, cyhoeddi a sicrhau bod y Canllaw newydd ar gael;
  - ii. Byddwn yn darparu cyfarwyddyd ar wahân i deuluoedd, fydd yn amlinellu'r system gymorth gyfreithiol gan gynnwys diffiniadau cyfredol a meini prawf ar gyfer ariannu mewn dull hawdd i'w ddeall;
  - iii. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y system a ddefnyddir i gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth yn llysoedd y crwneriaid yn llawer gwell a bod teuluoedd yn gwybod swyddogaethau'r rheini sy'n gweithio i'r llysoedd.

#### **B. Cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau**

9. Cyfeiriodd y dystiolaeth at nifer o bryderon sydd gan rhanddeiliaid ynghylch darparu cymorth cyfreithiol a'r rôl sydd gan deuluoedd yn y broses ymgeisio a'r cwestau eu hunain. Yn fwy na dim, awgrymwyd nad yw pobl yn llwyr ddeall y broses cymorth cyfreithiol ac ymgeisio bresennol. Hefyd, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn cael anhawster i ddeall y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfreithiol a bod y mathau o achosion lle mae cyllid ar gael. Hefyd, fe wnaethon ni ystyried argymhelliad i ehangu darpariaeth o gyllid gymorth cyfreithiol ar gyfer mathau penodol o achosion - achosion pan mae'r ymadawedig yn marw yn y carchar, ac achosion pan mae'r wladwriaeth yn cael ei chynrychioli.
  - i. Er mwyn sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol sut mae'r systemau presennol yn gweithio yn yr achosion hyn, byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac egluro'r broses gymhwysedd yn y pecyn cyllid i ddarparwyr;

- ii. Er mwyn helpu pobl i ddeall y meini prawf cymhwysedd yn well, byddwn yn esbonio hwn mewn cyfarwyddyd ar wahân i deuluoedd, fel y crybwyllir uchod;
- iii. Er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau ynghylch y broses ymgeisio, byddwn yn edrych ar y weithdrefn ar gyfer ymgeisio o dan y Cynllun Cyllid Achos Eithriadol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio mor effeithiol â phosibl;
- iv. O ystyried yr effaith y mae cynrychiolwyr ychwanegol yn ei chael ar deuluoedd mewn profedigaeth, yr ystyriaethau ariannol, a'r effaith y gallai estyniad ehangach ei gael ar y cynllun cymorth cyfreithiol ehangach, rydym wedi penderfynu na fyddwn ni'n cyflwyno cymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer cwestau lle mae'r wladwriaeth yn cynrychioli. Wedi dweud hynny, wrth symud ymlaen, byddwn yn ymchwilio i ddewisiadau pellach o ran ariannu cymorth cyfreithiol mewn cwestau lle mae'r wladwriaeth yn cael cynrychiolaeth sydd wedi'i hariannu gan y wlad. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cydweithio'n agos ag Adrannau eraill y Llywodraeth.
- v. Bydd y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad i'r trothwyon ar gyfer hawliau cymorth cyfreithiol a'r modd y maen nhw'n rhyngweithio â'r meini prawf ehangach.
- vi. Byddwn yn darparu ar gyfer ôl-ddyddio'r hawllidiad ar gyfer cymorth cyfreithiol, fel y gall taliadau o'r fath gael eu hôl-ddyddio i ddyddiad y cais, pe byddai hawllidiad yn cael ei ganiatáu.

### C. Y cwest ei hun

- c. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn credu bod yna anghysondeb yn y ffordd o weithio a'r arferion rhwng crwneriaid, ac ymddygiad y cynrychiolwyr cyfreithiol. Hefyd, roedd tystiolaeth yn cyfeirio at anghysonderau yn y gwasanaethau cymorth sydd ar gael mewn llysoedd crwneriaid, a'r angen i ystyried gwelliannau i drefn y llys.
  - i. Er mwyn gwneud y llysoedd eu hunain yn fwy addas ar gyfer anghenion teuluoedd mewn profedigaeth, byddwn yn ystyried ffyrdd o wella'r cyfleusterau sydd ar gael mewn cwestau;
  - ii. Byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r gwasanaethau cymorth;
  - iii. Byddwn hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r ffordd y mae cyfreithwyr yn ymddwyn.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cam o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae clywed am brofiadau a myfyrdodau'r rheini sydd wedi cael profiad o gwest wedi bod yn amhrisiadwy ac rydym yn gobeithio defnyddio'r dystiolaeth hon i wneud gwelliannau pwysig i'r system ac i brofiadau'r rheini sy'n rhan o'r system gwestau.







© **Crown copyright 2019**

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.